Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-2020

Chwefror 2020



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-2020

Chwefror 2020

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn: www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru



**Alun Davies AC**
Llafur Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AC**
Plaid Brexit

# Cynnwys

**Argymhellion a Casgliad ........ 5**

**1. Yr Ail Gyllideb Atodol ........ 7**

**2. Cyllid cyffredinol ........ 9**

**3. Blaenoriaethu ........ 15**

**4. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol ........ 23**

# Argymhellion a Casgliad

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod manylion ar gael i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl Cyllideb y DU sy'n rhoi manylion am effaith newidiadau ar lefel y DU ar Gyllideb Cymru, yn benodol mewn perthynas â Chyllideb 2019-20. ........ Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y materion a nodwyd gan y Gweinidog mewn perthynas â hysbysiad hwyr gan Lywodraeth y DU o ddyraniadau trafodion ariannol yn dilyn Amcangyfrifon Atodol y DU ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio cynnydd yn y cyfalaf trafodion ariannol a gaiff ei gario ymlaen bob blwyddyn i adlewyrchu natur fwy cymhleth prosiectau sy'n defnyddio'r cyllid hwn a'r ansicrwydd y mae newidiadau yn hwyr yn y flwyddyn gan Lywodraeth y DU yn ei ychwanegu at y gwaith o gynllunio a gweinyddu'r dyraniadau cyllid hyn. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariadau ar drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad am HS2 ac a fydd hyn yn arwain at gyllid canlyniadol i Gymru. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ychwanegol yn yr adroddiad alldro i nodi'r sefyllfa fanwl ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys dyraniadau sylweddol a wneir yn dilyn y Gyllideb Atodol hon. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod fforddiadwyedd hirdymor y polisi benthyciadau i fyfyrwyr gyda Llywodraeth y DU ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar sut y bydd cyflwyno gwaith ennill ffioedd yn gynnar yn effeithio ar incwm ffioedd yn y dyfodol, gan gynnwys pa oblygiadau y gallai hyn eu cael ar y linell sylfaen ar gyfer incwm ffioedd wrth symud ymlaen ac unrhyw oblygiadau ar ei chynllun gwaith a threfniadau o ran adnoddau yn y dyfodol. ........ Tudalen 25

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Gweinidog yn ei hymdrechion i sicrhau bod effaith penderfyniadau'r DU yn dryloyw, yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn dod gyda chyllid priodol, ac mae'n credu'n gryf bod angen eglurder ynghylch penderfyniadau Llywodraeth y DU a sut y mae polisi'r datganiad cyllid yn cael ei gymhwyso. ........ Tudalen 14

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Cynulliad ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. ........ Tudalen 24

# 1. Yr Ail Gyllideb Atodol

**1.** Gosodwyd Cynnig y Gyllideb Atodol (y Gyllideb Atodol) ar 4 Chwefror 2020, ynghyd â Nodyn Esboniadol. Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Gyllideb Atodol hon ar 12 Chwefror 2020.

**2.** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20. Mae'n nodi nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer trethi datganoledig, addasiadau i'r Grant Bloc, cronfeydd a gaiff eu tynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyca arfaethedig o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol. Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu £1,071.6 miliwn yn ychwanegol i adrannau, gan gynyddu gwariant Llywodraeth Cymru o £18.7 biliwn yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 i £19.7 biliwn, sef cynnydd o 5.7 y cant.

**3.** Mae Ffigur 1 isod yn cynnwys y prif ffigurau o'r Gyllideb Atodol hon, gan ddangos symudiad arian o Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20.[1]

[1] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2no019-20 a chyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad

Chwefror 2020

# Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-20

Prif ffigurau'r Ail Gyllideb Atodol (AGA), yn dangos symudiad arian o Gyllideb Atodol Gyntaf (CAG) 2019-20

| DEL: Refeniw | + | DEL: Cyfalaf | + | AME | = | TME |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £15,294m | | £2,177m | | £2,276m | | £19,747m |
| +£525m +3.6% | | +£199m +10.1% | | +£347m +18% | | +£1,072m +5.7% |

**Uchafswm Gwariant Adrannol (DEL)**

Cyfanswm = **£17,471m** +£724m +4.3%

**AME**: Gwariant a Reolir yn Flynyddol
**TME**: Cyfanswm y Gwariant a Reolir
**AGA**: Ail Gyllideb Atodol
**CAG**: Cyllideb Atodol Gyntaf

**DEL** yw'r rhan o'r gyllideb y gall Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario yn ôl ei disgresiwn ei hun.
**AME** yw'r rhan o'r gyllideb na all Llywodraeth Cymru ei gwario yn ôl ei disgresiwn ei hun.

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid o CAG i AGA |
|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | £8,477m | +£103m 1.2% ▲ |
| **Tai a Llywodraeth Leol*** | £4,621m | +£99m 2.2% ▲ |
| **Addysg** | £2,133m | +£404m 23.4% ▲ |
| **Economi a Thrafnidiaeth** | £1,376m | +£85m 6.6% ▲ |
| **Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | £296m | -£3m -1.0% ▼ |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth** | £384m | +£29m 8.0% ▲ |
| **Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** | £184m | +£8m 4.4% ▲ |

*Ddim yn cynnwys cyfraddau incwm annomestig £1bn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu. Gweler Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-20 am yr union ffugurau.

# 2. Cyllid cyffredinol

**4.** Disgwylir i'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gynyddu gan £604.6 miliwn (3.1 y cant), o'i gymharu â Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20. Mae hyn yn cynnwys cynnydd net o £565.8 miliwn (3.5 y cant) mewn cyllid refeniw a chynnydd net mewn cyllid cyfalaf o £38.8 miliwn (1.3 y cant). Cyfanswm Cyllido Cymru yw £20.0 biliwn.

**5.** Nodir newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG) yn y tabl isod.[2]

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 | Ail Gyllideb Atodol 2019-20 | Newid o'r Gyllideb Atodol gyntaf i'r Ail Gyllideb Atodol | | Real terms change | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *y cant* | *£000* | *y cant* |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,495,236 | 8,816,174 | 320,938 | 3.8 | 320,938 | 3.8 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,607,571 | 5,714,297 | 106,726 | 1.9 | 106,726 | 1.9 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,353,374 | 1,451,267 | 97,893 | 7.2 | 97,893 | 7.2 |
| Addysg | 2,379,562 | 2,892,257 | 512,695 | 21.5 | 512,695 | 21.5 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 179,767 | 187,497 | 7,730 | 4.3 | 7,730 | 4.3 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 300,840 | 297,904 | -2,936 | -1.0 | -2,936 | -1.0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 358,913 | 387,446 | 28,533 | 7.9 | 28,533 | 7.9 |
| **Cyfanswm Dyraniadau TME Llywodraeth Cymru** | **18,675,263** | **19,746,842** | **1,071,579** | **5.7** | **1,071,579** | **5.7** |

## Newidiadau i ragolygon ac addasiadau grant bloc

**6.** Roedd y rhagolygon treth yng Nghyllideb 2019-20 yn seiliedig ar ragolygon Llywodraeth Cymru ei hun, gyda dilysiad annibynnol o'r fethodoleg gan Brifysgol Bangor.

[2] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2019-20 a chyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad

**7.** Mae'r cyllid o Gyfradd Treth Incwm Cymru, yn y flwyddyn drosiannol gyntaf hon ar ôl datganoli'r dreth hon yn rhannol, yn aros yr un fath ar £2,059 miliwn. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn tynnu sylw at y ffaith bod y refeniw a ragwelir ar gyfer Treth Trafodiadau Tir wedi gostwng £30 miliwn a bod y refeniw a ragwelir o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi gostwng £5 miliwn ers y Gyllideb Atodol Gyntaf. Fodd bynnag, ers y Gyllideb Atodol Gyntaf, ychwanegwyd atebolrwydd Treth Trafodiadau Tir o £33.8 miliwn mewn perthynas â phrynu Llinell Craidd y Cymoedd. Felly, mae gostyngiad net o £1.2 miliwn i ragolygon refeniw treth datganoledig.

**8.** Mae'r cynnydd refeniw yn y Gyllideb Atodol yn cynnwys cynnydd o £9.3 miliwn oherwydd diwygiadau i'r addasiad Grant Bloc.

**9.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd disgwyl y byddai addasiadau grant bloc pellach yn dilyn Cyllideb ddisgwyliedig y DU ym mis Mawrth. Dywedodd y Gweinidog:

> "In terms of the 2019-20 block grant adjustments, they won't be revised again this year, but in terms of providing information back to the Assembly, there will be reconciliation payments that will take place as outturn information becomes available to us, but they will apply to future years' block grant adjustments, in accordance with the methodology in the fiscal framework agreement."[3]

## Newidiadau i gyfalaf

**10.** Mae'r Gyllideb Atodol yn dangos cynnydd net o £88.8 miliwn (4.8 y cant) i gyfalaf cyffredinol, ond gostyngiad o £16.0 miliwn (-5.3 y cant) mewn cyfalaf trafodion ariannol. Mae nodyn esboniadol y Gyllideb Atodol yn nodi bod y gostyngiad mewn cyfalaf trafodion ariannol "yn cynnwys gostyngiad o £106.023 miliwn fel y'i hysbyswyd gan Lywodraeth y DU ddiwedd mis Ionawr, fel rhan o amcangyfrifon atodol y DU".[4]

[3] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 44

[4] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2019-20, Nodyn Esboniadol, Chwefror 2020

**11.** Nododd y Gweinidog fod Trysorlys y DU wedi rhoi gwybod y byddai addasiadau cadarnhaol a negyddol ar gyfer cyllideb 2019-20[5] ychydig dros wythnos cyn cyhoeddi'r Gyllideb Atodol hon a bod y gostyngiad o £106 miliwn mewn cyfalaf trafodion ariannol a £100 miliwn mewn cyfalaf cyffredinol yn 'syndod llwyr'.[6]

**12.** Eglurodd y Gweinidog sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r gostyngiad annisgwyl:

> "…we had asked the UK Treasury for some flexibility to carry over some financial transactions capital into next year, outside of the Wales reserve. Treasury didn't agree to that, but that does mean now that we are able to absorb the financial transactions capital reduction in this year, whilst we've agreed with Treasury the maximum flexibility to take over the reduction in general capital to next year as well as a small uplift in revenue. So, if there is additional funding coming at the March budget for next year, then obviously the first call on that then will be to replace the £100 million."[7]

**13.** Dywedodd y Gweinidog fod hyn ond yn un ffordd arall lle nad yw'r polisi datganiad cyllid wedi'i barchu.[8] Nododd y Gweinidog feysydd eraill lle credai nad oedd y Polisi Datganiad Cyllid wedi'i barchu, gan gynnwys pensiynau'r sector cyhoeddus, rheolau pensiwn y GIG a chyllid ychwanegol ar gyfer Gogledd Iwerddon.[9]

**14.** Credai'r Gweinidog fod diffyg tryloywder ynghylch penderfyniadau Llywodraeth y DU a oedd yn ei gwneud hi'n anodd deall y manylion ynghylch y penderfyniadau hynny.[10]

## Cyllid canlyniadol HS2

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 3
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 4
[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 15
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 5
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraffau 5 a 6
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 7

**15.** Ar 11 Chwefror 2020, cymeradwyodd Llywodraeth y DU y prosiect rheilffordd HS2. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl derbyn unrhyw arian canlyniadol yn dilyn y cyhoeddiad hwn. Dywedodd y Gweinidog:

> "What we would certainly believe was the right thing to happen would be for Welsh Government to get its fair share of those consequentials. So that could potentially be in the region of £5 billion.... we don't have the detail as to what it will mean for us, but as soon as we do have further clarification, through discussion with Treasury and so on, we'll be keen to let the Committee know."[11]

## Safbwynt y Pwyllgor

**16.** Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, yn argymell bod "*y wybodaeth ddiweddaraf ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl i Gyllideb y DU gael ei chyhoeddi, sy'n manylu ar unrhyw effaith a gaiff rhagolygon diweddaraf macro-economaidd y DU, yn enwedig unrhyw effaith ar refeniw'r trethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.*" Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd yr argymhelliad hwn a hoffai gael diweddariad ar effaith Cyllideb y DU cyn gynted â phosibl.

**17.** Er ei fod yn cydnabod na fydd y rhagolygon treth wedi'u diweddaru yn dilyn cyllideb ddisgwyliedig Llywodraeth y DU ym mis Mawrth yn effeithio ar addasiad grant bloc 2019-20, mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth i adlewyrchu'r newidiadau hyn fel rhan o addasiad alldro wedi'i ddiweddaru yn ei hadroddiad alldro, gyda mwy o fanylion yn natganiad treth Awdurdod Cyllid Cymru.

**18.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r manylion a ddarperir yn y nodyn esboniadol am ddyraniadau cyfalaf trafodion ariannol ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn rhannu pryder y Gweinidog ynghylch y canlyniadau negyddol sy'n ymwneud â dyraniadau trafodion ariannol yn dilyn Amcangyfrifon Atodol y DU. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu na ddarparwyd digon o wybodaeth i Lywodraeth Cymru i ddeall yr holl newidiadau i gyllid canlyniadol.

---

[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraffau 20 a 31

**19.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog y dylai Llywodraeth y DU ganiatáu mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru wrth ddwyn ymlaen gyfalaf trafodion ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall gymryd amser i brosiectau cyfalaf gael eu nodi a'u dechrau a gan fod y cyllid hwn yn aml yn cael ei newid neu ei ddarparu yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, mae'n gorfodi Llywodraeth Cymru i wario neu golli cyllid a allai arwain at werth is am arian.

**20.** Mae'r Pwyllgor yn deall rhwystredigaethau'r Gweinidog gyda chymhwysiad Llywodraeth y DU o'r Polisi Datganiad Cyllid. Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, mynegodd y Pwyllgor bryderon fod Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol ar Lywodraeth Cymru, fel newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, heb fod y cyllid llawn yn cael ei ddarparu gan Drysorlys EM.

**21.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi bwriad y Gweinidog i fynd i'r afael â materion sydd wedi codi o ran y Fframwaith Cyllidol a'r Polisi Datganiad Cyllid yn benodol, i sicrhau bod cyllid priodol yn cyd-fynd â phenderfyniadau gwario y DU.

**22.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried materion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd y Fframwaith Cyllidol a'r Polisi Datganiad Cyllid fel rhan o ystyriaeth o weithredu Deddf Cymru 2014.

**23.** Er nad yw'n benodol i'r Gyllideb Atodol hon, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid egluro'r sefyllfa ynghylch unrhyw ganlyniadau posibl o'r cynllun HS2. Cred y Pwyllgor fod penderfyniad blaenorol Llywodraeth y DU, y dylai Cymru dderbyn cyllid canlyniadol ar gyfer y prosiect Crossrail, wedi gosod cynsail ac y dylai Cymru dderbyn cyllid canlyniadol ar gyfer y prosiect HS2 ar y sail hon.

**24.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai cyllid canlyniadol posibl y prosiect HS2 yng Nghymru gael ei ddylanwadu gan sut a phryd y gwneir cyhoeddiadau cyllido. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn derbyn cyllid canlyniadol teg sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer y prosiect hwn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod manylion ar gael i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl Cyllideb y DU sy'n rhoi manylion am effaith newidiadau ar lefel y DU ar Gyllideb Cymru, yn benodol mewn perthynas â Chyllideb 2019-20.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y materion a nodwyd gan y Gweinidog mewn perthynas â hysbysiad hwyr gan Lywodraeth y DU o ddyraniadau trafodion ariannol yn dilyn Amcangyfrifon Atodol y DU ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio cynnydd yn y cyfalaf trafodion ariannol a gaiff ei gario ymlaen bob blwyddyn i adlewyrchu natur fwy cymhleth prosiectau sy'n defnyddio'r cyllid hwn a'r ansicrwydd y mae newidiadau yn hwyr yn y flwyddyn gan Lywodraeth y DU yn ei ychwanegu at y gwaith o gynllunio a gweinyddu'r dyraniadau cyllid hyn.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Gweinidog yn ei hymdrechion i sicrhau bod effaith penderfyniadau'r DU yn dryloyw, yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn dod gyda chyllid priodol, ac mae'n credu'n gryf bod angen eglurder ynghylch penderfyniadau Llywodraeth y DU a sut y mae polisi'r datganiad cyllid yn cael ei gymhwyso.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariadau ar drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad am HS2 ac a fydd hyn yn arwain at gyllid canlyniadol i Gymru.

# 3. Blaenoriaethu

**25.** Mae nodyn esboniadol y Gyllideb Atodol yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n darparu y "sylfaen sy'n arwain ein proses gyllidebol" a bod cynlluniau gwariant wedi'u llunio gan wyth maes blaenoriaeth trawsbynciol; blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, cyflogadwyedd a sgiliau, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth.[12]

**26.** Mae'r nodyn esboniadol yn nodi iddo gael ei ddatblygu yn unol â'r Cynllun Gwella'r Gyllideb "i roi cyfrif mwy cynhwysfawr o'r dyraniadau sylweddol a wnaed o'r cronfeydd wrth gefn".[13]

## Trosglwyddiadau rhwng portffolios Gweinidogol a dyraniadau o gronfeydd wrth gefn

**27.** Mae Pennod 4 o'r nodyn esboniadol yn nodi trosglwyddiadau cyllid adnodd cyllidol gwerth £22.9 miliwn rhwng adrannau, gan gynnwys £17.7 miliwn i'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaeth Canolog a Gweinyddiaeth mewn perthynas â buddsoddi i arbed, a £3.7 miliwn ar gyfer adnabod ac ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, drwy addysg.

**28.** Mae Pennod 5 y nodyn esboniadol yn dangos trosglwyddiadau o fewn portffolios Gweinidogol ac mae Pennod 6 yn rhoi manylion am ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn ôl portffolio.

**29.** Dyrennir dros £300 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn y Gyllideb Atodol hon. Rhoddir manylion am ddyraniadau allweddol o gronfeydd wrth gefn yn y nodyn esboniadol a darperir gwybodaeth ynghylch sut y mae'r penderfyniadau'n cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Ymhlith y dyraniadau mae'r canlynol:

- Y Cynnig Gofal Plant
- Gwobr Cyflog Athrawon
- Ail becyn buddsoddi cyfalaf
- Buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ysgolion a cholegau

[12] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2019-20, Nodyn Esboniadol, Chwefror 2020

[13] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2019-20, Nodyn Esboniadol, Chwefror 2020

- Bargeinion rhanbarthol
- Buddsoddiad cyfalaf mewn tai
- Y gronfa buddsoddi cymdeithasol Buddsoddi i Arbed
- Gwella a buddsoddi mewn trafnidiaeth
- Maes Awyr Caerdydd
- Prosiect Coridor yr M4
- Cronfa Benthyciadau Micro-fusnesau
- Cronfa Bontio'r UE
- Buddsoddiad yn Awdurdod Cyllid Cymru
- Brexit
- Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Pwysau'r gaeaf
- Dileu TB Buchol

**30.** Nododd y Gweinidog fod lefel y cronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Atodol yn rhan o ddull strategol.[14]

**31.** Eglurodd y Gweinidog, wrth benderfynu ar ddyraniadau, fod trafodaethau'n digwydd gyda Gweinidogion eraill, a rhoddodd enghraifft o'r £6.4 miliwn a ddyrannwyd o gronfeydd wrth gefn i gwrdd â phwysau ychwanegol mewn perthynas â'r pwysau a arweinir gan alw sy'n gysylltiedig ag iawndal TB.[15]

**32.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys trosglwyddiadau allan o refeniw £930,000 a chyfalaf £4.2 miliwn Perygl Llifogydd a Rheoli Dŵr. Cadarnhaodd y Gweinidog nad newid mewn polisi na maint y gwaith sy'n cael ei wneud yw hwn, ond ei fod yn adlewyrchu newid yn y gwaith o broffilio'r prosiectau.[16]

**33.** Ar 26 Chwefror 2019, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i'r llifogydd ledled Cymru. Dywedodd y Gweinidog y byddai mwyafrif y costau a oedd yn gysylltiedig ag ymateb Llywodraeth Cymru yn digwydd yn 2020-21, ond dywedodd y byddai hynny'n cael ei ariannu o'r cyllidebau presennol. Fodd bynnag, pe byddai angen cyllid ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer cymorth mewn argyfwng, byddai'r Llywodraeth yn ystyried defnyddio

---

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 82

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 77

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 159

"pwerau adran 128 i awdurdodi'r defnydd o adnoddau o gofio diddordeb y cyhoedd yn y mater hwn".[17]

**34.** Pan holwyd swyddog y Gweinidog ynghylch lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir o fewn portffolios unigol, eglurodd fod portffolios yn dal cyllid ar gyfer arian wrth gefn a hyblygrwydd.[18]

[17] Llythyr gan y Gweinidog – Cynllun Rhyddhad Cyllid Brys, 26 Chwefror 2019

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 100

## Benthyciadau i fyfyrwyr

**35.** Mae'r Gyllideb Atodol yn gwneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn i Wariant a Reolir yn Flynyddol o ran benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

- mae Llinell Gwariant yn y Gyllideb Darparu Cyllideb Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi cynyddu £352.1 miliwn, gan gynnwys £351.9 miliwn mewn perthynas â gofyniad anariannol ychwanegol i fodloni mwy o Gyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau a thaliadau stoc a'r polisi canslo rhannol mewn perthynas â benthyciadau i fyfyrwyr.
- cynnydd net o £54.5 miliwn yng nghyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer Addysg i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n cynnwys: cynnydd o £25.8 miliwn yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer Adnoddau; a chynnydd o £28.6 miliwn yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer Cyfalaf.

**36.** Dywedodd swyddog y Gweinidog fod y Gyllideb Atodol yn dangos cynnydd mawr yn y MEG Addysg, o ganlyniad i newid polisi yn 2017 lle cynyddodd y trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr o £21,000 i £25,000 y flwyddyn.[19] Parhaodd y swyddog i nodi pam fod y codiadau hyn i'w gweld yn y cam cyllideb atodol bob blwyddyn:

> "…there wasn't a revision of that non-fiscal baseline as a result of that policy, which of course has happened in England as well. So, the way that the Treasury has always approached that … rather than increasing the Department for Education's baseline, of which we would have had a consequential as a result of that—is that they will deal with it as an in-year measure…
>
> So, every supplementary estimate, there's a claim on the UK reserve for the amount the Department for Education requires. Obviously, it's a lot larger than the claim that is put in from Welsh Government. That's why, each year since that policy change, we've seen this quite significant hundreds of millions increase. We'd expect, because that

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 219

> baseline still hasn't changed for plans next year, there to be a similar claim, hopefully—and we haven't had those communications from Treasury as yet—as part of the spending review, and that baseline, which reflects the cost of student loans, being reflected and properly looked at."[20]

## Brexit

**37.** Mae llawer o'r dyraniadau ychwanegol, neu'r newidiadau iddynt, yn gysylltiedig â'r UE a Brexit. Mae'r nodyn esboniadol yn cyfeirio at ddyraniad o £33 miliwn i gefnogi busnesau yn sgil Brexit ac mae hefyd yn rhoi manylion am ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Drosglwyddo Ewropeaidd o refeniw o £3.5 miliwn, £2.5 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £5 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol ar gyfer prosiectau.

**38.** Mae dyraniadau allweddol eraill ar gyfer pwysau adnoddau sy'n gysylltiedig â Brexit yn cynnwys £19.9 miliwn ar gyfer gwaith cynllunio wrth gefn, trafod partneriaethau yn y dyfodol, paratoi ar gyfer arfer pwerau newydd a rheoli deddfwriaeth.

**39.** Roedd y Gweinidog yn disgwyl i effaith Brexit gael ei theimlo yn 2021-22, ar ôl i'r cyfnod trosglwyddo ddod i ben:

> "…obviously, things will take some time to feed through, in terms of impacts on the economy and other sectors. And as yet, we don't know what those might be. But it is our expectation—just because of the time lag between events taking place, and impacts on business—that it would be the 2021-22 budget where we would see some of that."[21]

**40.** Mewn perthynas â'r £33 miliwn i gefnogi busnesau, roedd y Gweinidog wedi cyhoeddi £53 miliwn o'r blaen fel rhan o Ail becyn buddsoddi cyfalaf. Nododd y Gweinidog fod Banc Datblygu Cymru wedi dod i'r casgliad wedi hynny nad oedd angen cronfa gwerth £20 miliwn i gefnogi busnesau canolig ar hyn o bryd.

> "Between the submission of the outline bid from the economy Minister in June, and then, in December of last year, the Development

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraffau 220 a 221

[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 84

> Bank for Wales undertook some further work on that, and they looked particularly at the Economic Intelligence Wales report on medium-sized firms and Welsh business structure, which was published in November, and they concluded at that stage, then, that there wasn't the need to establish this particular fund, because those businesses would be able to receive sufficient support through other funds, such as the Wales flexible investment fund. But, of course, we'll keep this under review, but that's the reason that that particular fund didn't go ahead."[22]

**41.** Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw fanylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond bod gwaith sylweddol yn digwydd o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch sut y byddai cynllun o'r fath yn cael ei ddatblygu a'i weinyddu yng Nghymru.[23]

**42.** Mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £3 miliwn ar gyfer Cyllid Cyfatebol yr UE. Cadarnhaodd y Gweinidog fod disgwyl i'r holl arian cyfatebol gael ei ddefnyddio.[24] Fodd bynnag, mynegodd y Gweinidog bryderon ynghylch dyfodol cyllid cyfatebol:

> "We've had repeated reassurances from the UK Government that we wouldn't be a penny worse off in terms of the funding, but that said, one of our key concerns also is how that funding is distributed. So, we believe that, obviously, it should be Welsh Government that administers those funds, and we've set out in one of our Welsh Government publications how we might see the future of regional investment and the European funds, going forward. So, our concerns are partly about ensuring that the UK Government stays true to its pledge about the amount of funding, but then also these arguments that we need to continue to have about how that funding is deployed and by whom in future."[25]

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraffau 124 a 125

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 136

[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 146

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2020, paragraff 131

## Safbwynt y Pwyllgor

**43.** Mae'r Pwyllgor yn nodi, yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn dal cronfeydd cyfalaf a refeniw, y bydd adrannau unigol yn dal arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o fanylion yn yr adroddiad alldro er mwyn nodi'r sefyllfa fanwl ar ddiwedd y flwyddyn, ac i ddeall newidiadau i'r dyraniadau a wnaed ers y Gyllideb Atodol hon.

**44.** Er bod y Gyllideb Atodol yn cynnwys trosglwyddiadau allan o Risg Llifogydd a Rheoli Dŵr, mae'r Pwyllgor yn nodi bwriadau'r Gweinidog i ddarparu cynllun rhyddhad mewn argyfwng i gynorthwyo'r rhai yr effeithiwyd arnyn nhw gan y llifogydd ddechrau 2020. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerodd y Gweinidog o ran darparu cymorth ariannol, a byddai'n cefnogi'r angen am ddefnyddio pwerau adran 128.

**45.** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys cynnydd o £352 miliwn mewn refeniw heblaw arian parod ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r tâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod codiadau tebyg wedi'u cynnwys yn yr Ail Gyllideb Atodol yn 2017-18 a 2018-19.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pryder y Gweinidog nad yw Trysorlys EM wedi addasu llinellau sylfaen yn dilyn y newid i'r trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr. Er bod Trysorlys EM yn darparu dyraniad ychwanegol heblaw arian parod i dalu dyled benthyciad i fyfyrwyr, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod canran y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr y rhagwelir y bydd yn cael ei ddileu yn cynyddu bob blwyddyn a bod angen cynnal trafodaethau pellach gyda Thrysorlys EM ynghylch fforddiadwyedd y polisi wrth symud ymlaen.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Gweinidog yn disgwyl gallu cyrchu hawl lawn Cymru i gael cyllid yr UE a bod Llywodraeth Cymru, er gwaethaf absenoldeb manylion neu gytundeb o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin, yn symud ymlaen o ran sut y byddai'n datblygu a gweinyddu cynllun o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei argymhelliad 4 o adroddiad 2018 y Pwyllgor ar Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru:

> *"Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn negodi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU*

> *yng Nghymru." (Argymhelliad 4: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Y Paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, Medi 2018)*[26]

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ychwanegol yn yr adroddiad alldro i nodi'r sefyllfa fanwl ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys dyraniadau sylweddol a wneir yn dilyn y Gyllideb Atodol hon.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod fforddiadwyedd hirdymor y polisi benthyciadau i fyfyrwyr gyda Llywodraeth y DU ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

---

[26] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Y Paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, Medi 2018

# 4. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

**48.** Mae cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau dau gorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau hyn yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2020.

## Comisiwn y Cynulliad

**49.** Mae cyllideb atodol Comisiwn y Cynulliad yn ceisio cynyddu ei gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol gan £0.150 miliwn mewn perthynas ag atebolrwydd ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> "Diben yr addasiad hwn yw sicrhau y caiff darlun gwir a theg o rwymedigaeth y Cynllun ei gofnodi ym mantolen y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu talu i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac nid yw gwneud newidiadau iddo'n effeithio o gwbl ar gyllideb adnoddau na gwaith darparu gwasanaethau'r Comisiwn."[27]

**50.** Mae cyllideb atodol Comisiwn y Cynulliad hefyd yn cynnig gostyngiad o £0.500 miliwn yng nghyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro, yn seiliedig ar y disgwyliadau presennol, nad yw'n debygol y defnyddir yr holl arian a gyllidebwyd ar gyfer cyflogau staff cymorth a lwfansau eraill.[28]

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

**51.** Mae'r amrywiad arfaethedig i gyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â chynnydd yn y gwaith ennill ffioedd sy'n cael ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol gyfredol, y tu hwnt i'r lefelau a ragwelir yn amcangyfrif cymeradwy Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20. Mae'n amcangyfrif gwerth £300,000 yn ychwanegol mewn adnoddau cronnus.

[27] Comisiwn y Cynulliad, Cyllideb Atodol 2019-20, Memorandwm Esboniadol, 2.2

[28] Comisiwn y Cynulliad, Cyllideb Atodol 2019-20, Memorandwm Esboniadol, 2.3

**52.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi gan fod y newid yn ymwneud ag amseriad cyflenwi incwm ac nid ag amseriad y ffioedd sy'n cael eu biliio i gyrff archwiliedig, na fydd newid i ofyniad arian parod net Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Swyddfa yn nodi ei bod yn bwriadu defnyddio'r adnoddau ychwanegol i fuddsoddi mewn gwaith cynllunio'r gweithlu drwy ei chynllun ymadael gwirfoddol. Bydd y Swyddfa yn adolygu effaith y cyflawniad cynharach hwn wrth ailasesu ei sylfaen incwm ar gyfer 2020-21.[29]

**53.** Ar 26 Chwefror 2020, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor yn dweud bod gwall gweinyddol yng Nghynnig y Gyllideb Atodol, a oedd yn ymwneud ag adnoddau cronnus Swyddfa Archwilio Cymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu cynnig gwelliant i'r cynnig, i nodi swm cywir yr adnoddau cronnus ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru.[30]

## Safbwynt y Pwyllgor

**54.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dychwelyd y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r tanwariant penderfyniad.

**55.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi darparu incwm ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon ac yn nodi ei bwriadau i fuddsoddi'r adnodd ychwanegol mewn gwaith i gynllunio'r gweithlu drwy gynllun ymadael gwirfoddol. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar y goblygiadau y bydd hyn yn eu cael ar incwm ffioedd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**56.** Mae'r Pwyllgor yn nodi llythyr y Gweinidog yn cyfeirio at y gwall yng Nghynnig y Gyllideb Atodol. Gan fod y Pwyllgor wedi ystyried y Nodyn Esboniadol gan Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn cynnwys yr adnoddau cronnus cywir, mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r dull a gynigir i gywiro'r gwall.

> **Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Cynulliad ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

---

[29] Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, Cyllideb Atodol 2019-20, Memorandwm Esboniadol

[30] Llythyr gan y Gweinidog – Gwelliant i Gynnig y Gyllideb, 26 Chwefror 2020

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar sut y bydd cyflwyno gwaith ennill ffioedd yn gynnar yn effeithio ar incwm ffioedd yn y dyfodol, gan gynnwys pa oblygiadau y gallai hyn eu cael ar y llinell sylfaen ar gyfer incwm ffioedd wrth symud ymlaen ac unrhyw oblygiadau ar ei chynllun gwaith a threfniadau o ran adnoddau yn y dyfodol.